Llais,
33-35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB

Llais,
33-35 Cathedral Road,
Cardiff,
CF11 9HB

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Cyfeirnod: LLAIS FOI-2024-001

5 Awst 2024

[redacted]

Anfonwyd trwy e-bost yn unig i

[redacted]

Annwyl [redacted]

## Eich cais am wybodaeth

Diolch am eich e-bost dyddiedig 15 Gorffennaf 2024. Rydym wedi ymdrin â’ch cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae’n bleser gennyf ddarparu’r wybodaeth ganlynol mewn ymateb i’ch cais:

- Strwythur TG/Digidol/Siart Sefydliadol – Mae ein strwythur trefniadol presennol ar gyfer gwasanaethau TG yn cynnwys y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltiad Sefydliadol, sydd â'r prif gyfrifoldeb am y maes hwn. Ymgymerir â rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd ar wasanaethau TG gan y Rheolwr Isadeiledd Digidol, a gefnogir gan y Rheolwr Perthynas â Chwsmeriaid.

- Gwariant contractwyr TG/digidol ac asiantaethau a ddefnyddiwyd ym mlwyddyn ariannol 23/24 – Ni allwn ddarparu gwybodaeth i'r cwestiwn hwn ar hyn o bryd gan fod angen inni geisio eglurhad. A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni os ydych yn cyfeirio at wasanaethau TG/Digidol ar

Llais,
33-35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB

Llais,
33-35 Cathedral Road,
Cardiff,
CF11 9HB

gontract allanol ar gyfer Llais neu contractwyr TG arbenigol unigol a ddarperir i Llais drwy asiantaethau neu'r ddau.

- Ydych chi wedi defnyddio unrhyw ymgynghoriaethau TG/Digidol os felly pa rai? Nid oes unrhyw ymgynghoriaethau wedi cael eu defnyddio gan Llais yn ystod 2023/2024.

- Strategaeth TG/Ddigidol Gyfredol – Mae Strategaeth Llais yn cael ei hysgrifennu ar hyn o bryd i gefnogi cyflawni ein Cynllun Strategol 3 blynedd. Mae hwn ar gael ar ein gwefan, www.llaiscymru.org.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi, a byddaf yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach sydd gennym unwaith y byddwch yn gallu egluro eich cais am ein defnydd o gontractwyr.

Gallwch hefyd ofyn i ni adolygu ein hymateb trwy gynnal adolygiad mewnol. Os hoffech i ni gynnal yr adolygiad, rhowch wybod i ni o fewn 40 diwrnod gwaith.

Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl ein hadolygiad mewnol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dylech gysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 6 wythnos i dderbyn canlyniad adolygiad mewnol.

Gallwch gysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw bryd drwy ei gwefan www.ico.org.uk/foicomplaints neu drwy’r post:

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth
Cymru 2il Lawr
Ty Churchill Ffordd
Churchill Caerdydd
CF10 2HH

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i’ch gohebiaeth.
We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Llais,
33–35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB

Llais,
33–35 Cathedral Road,
Cardiff,
CF11 9HB

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cais hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn dyfynnu'r cyfeirnod uchod mewn unrhyw gyfathrebiadau yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

Kirsty Contreras-Stacey Swyddog
Llywodraethu

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.